UK Government
Llywodraeth y DU

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

CRONFA ADNEWYDDU CYMUNEDOL Y DU YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymdrin â sut bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (fel Rheolydd Data) yn casglu, defnyddio a rhannu eich data personol at ddibenion rheoli Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Pam mae arnom angen eich gwybodaeth (diben prosesu)

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel rhan hanfodol o broses ymgeisio Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais ac at ddibenion monitro. Os byddwch yn llwyddiannus, caiff ei defnyddio hefyd er mwyn i ni dalu eich grant i chi. Efallai y byddwn hefyd yn ei defnyddio i gysylltu â chi am faterion sy'n benodol i'r Gronfa.

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU a Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, Deddf Datblygu Diwydiannol 1982 a Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddu neu archwilio/ gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â'n Gwasanaeth Archwilio Mewnol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data'n ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a dim ond yr wybodaeth bersonol sydd ei hangen i ddarparu ein gwasanaeth i chi fyddwn yn ei chasglu.

Pa ddata personol sy'n cael eu casglu?

Y categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu yw:

- Enw'r person sy'n rheoli'r cais i Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU ar ran eich sefydliad;
- Ei rif ffôn (a all fod yn rhif eich sefydliad);
- Ei gyfeiriad e-bost (a all fod yn gyfeiriad eich sefydliad);
- Ei gyfeiriad post (a all fod yn gyfeiriad eich sefydliad);
- Enw eich Uwch Swyddog Cyfrifol mewn perthynas â'r cais

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU yn ei gwneud yn ofynnol i fodloni amodau penodol i sicrhau bod prosesu eich data personol yn gyfreithlon. Mae'r amodau perthnasol hyn fel isod:

> Erthygl 6(1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu er budd ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?

Bydd y data personol yn y ceisiadau ar y rhestr fer yn cael eu rhannu â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a fydd yn gweithredu fel Cydreolyddion Data gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â'r ceisiadau hyn. Edrychwch ar yr Hysbysiad Preifatrwydd ar wahân sydd wedi'i gyhoeddi gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Gellir dod o hyd iddo yn

https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewal-fund-prospectus/uk-community-renewal-fund-privacy-notice.

Mawrth 2021

Yn ogystal, efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol gydag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon, a gall hyn gynnwys:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Trysorlys Ei Mawrhydi (HMT)
- Swyddfa'r Cabinet
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban
- Swyddfa Gogledd Iwerddon
- Yr Adran Addysg
- Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
- Yr Adran Masnach Ryngwladol

Gall y data gael eu rhannu hefyd ag adrannau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon), a chontractwyr lle cânt eu defnyddio at ddibenion monitro, i werthuso'r rhaglen. Bydd eu contract yn nodi'r hyn y caniateir iddynt ei wneud â data personol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddyletswydd i ddiogelu'r gronfa gyhoeddus mae'n ei rheoli. Felly, bydd yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni'n cael ei defnyddio i atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio yn fewnol ac yn allanol. Bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhannu'r wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu gennych gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio pwy ydych chi. Os caiff twyll ei ganfod, gellid gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi. Ceir rhagor o fanylion am sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, drwy fynd i

https://www.cifas.org.uk/fpn.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Dim ond cyhyd â sy'n angenrheidiol fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw eich gwybodaeth. Bydd pa mor hir fydd hyn yn dibynnu ar a fydd eich cais i Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU yn llwyddiannus. Os bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi eich cais ar restr fer i'w gyflwyno i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'i fod yn cael arian gan y Weinyddiaeth, bydd eich data personol yn cael eu cadw am hyd at ddwy flynedd o gau'r broses ymgeisio. Amcangyfrifir ar hyn o bryd mai diwedd mis Gorffennaf 2023 fydd hyn. Os na fydd eich cais ar y rhestr fer i'w gyflwyno i'r Weinyddiaeth, neu os bydd y Weinyddiaeth yn penderfynu peidio â dyfarnu cyllid, bydd eich data personol yn cael eu dileu ar ddiwedd y broses ymgeisio. Amcangyfrifir ar hyn o bryd mai diwedd mis Gorffennaf 2021 fydd hyn.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei gwaredu'n ddiogel pan na fydd arnom ei hangen mwyach.

Eich Hawliau

O dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn gan gynnwys:

- Yr hawl i **Gywiro** – mae gennych hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i **Gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – efallai y byddwch yn gofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol, fodd bynnag, gall hyn arwain at oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **Ddileu** - efallai y byddwch yn gofyn i ni ddileu eich data personol, fodd bynnag, gall hyn arwain at oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi, neu barhau i ddarparu gwasanaeth.

Mawrth 2021

Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.

- Yr hawl i beidio â bod yn destun **Penderfyniadau a phroffilio awtomatig.**
- Yr hawl i **Fynediad** – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â:
  Mynediad at Gofnodion
  Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
  Y Swyddfeydd Dinesig
  Stryd Angel
  Pen-y-bont ar Ogwr
  CF31 4WB

E-bost **foi@bridgend.gov.uk**

Cwynion neu Ymholiadau:

Os oes gennych chi bryder am y ffordd rydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi fynegi eich pryder wrth y Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf ar foi@bridgend.gov.uk. Fel dewis arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr am bob agwedd wrth i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn at:

E-bost: **foi@bridgend.gov.uk**

Dyma ein Manylion Cyswllt fel Rheolydd Data:

Cyfeiriad: Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Rhif Ffôn: 01656 643643 neu talktous@bridgend.gov.uk

Manylir ar wybodaeth ein Swyddog Diogelu Data uchod yn yr adran Cwynion ac Ymholiadau.

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn:

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.

Mai 2021